25AIN O FEDI

# Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



## Wythnos yma

**Croeso i Dreganna**

Diolch yn fawr i'r holl rieni a phlant a ddaeth i ddigwyddiad "Croeso i Dreganna" y GRhA. Roedd yn hyfryd cael cyfarfod â chymaint o wynebau newydd, yn ogystal â chroesawu wynebau cyfarwydd, ac roedd yn gyfle gwych i bawb ddod i adnabod ei gilydd.

Mae'n bleser mawr croesawu pawb i deulu Treganna! Diolch yn fawr i'r GRhA am drefnu digwyddiad mor gynnes a chroesawgar.

**Nosweithiau Rhieni**

Diolch i rieni disgyblion o'r Dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 5 a ddaeth i'r nosweithiau rhieni yr wythnos hon. Roedd yn hyfryd gweld cymaint o gefnogaeth , ac roedd y cyfarfodydd yn gyfle gwerthfawr i drafod eich plentyn a sut maent yn ymgartrefu ac yn ymdopi yn eu dosbarthiadau newydd.

Cofiwch y bydd nosweithiau rhieni Blwyddyn 6 yn cael eu cynnal ar nos Fawrth y 6ed o Hydref a nos Fercher y 7fed o Hydref.

**Clybiau ar ôl Ysgol**

Bydd y clybiau ar ôl ysgol sy'n cael eu rhedeg gan staff yr ysgol yn cychwyn wythnos nesaf, ar yr 28ain o Fedi, ac yn parhau'n wythnosol tan fis Rhagfyr.

Diolch yn fawr i'r staff sy'n rhoi o'u hamser i gynnal y clybiau hyn.Gofynnwn yn garedig i bawb sicrhau bod eu plant yn cael eu casglu'n brydlon am 4.30yp ar ddiwedd y clybiau.

## Calendr

**Nosweithiau Rhieni Blwyddyn 6**
6/7 o Hydref

**Noson Bingo y GRhA**
9fed o Hydref

## Bws Beic




Cofiwch y bydd Bws Beic cyntaf y tymor ar yr 2il o Hydref. Mae'r Bws Beic wedi tyfu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac erbyn hyn mae nifer fawr o rieni, plant ac athrawon yn teithio i'r ysgol gyda'i gilydd ar y Bws Beic.

Mae'n ffordd ddiogel, iach a chymdeithasol o deithio i'r ysgol, ac mae croeso cynnes i bawb ymuno â'r Bws Beic. Nid oes angen bod yn feiciwr profiadol, ymunwch â ni a mwynhewch y daith i'r ysgol gyda'n gilydd!

Diolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i drefnu a rhedeg y Bws Beic.

Llangrannog

## Gwersyll yr Urdd Llangrannog

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 amser gwych yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog yr wythnos hon. Roedd yr haul yn gwenu, a'r disgyblion wedi ymgymryd yn frwdfrydig â'r holl weithgareddau.

Roedd yn amlwg eu bod wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac wedi creu nifer o atgofion arbennig gyda'u ffrindiau.

Diolch yn fawr i'r staff a fu'n gofalu am y disgyblion yn ystod y tridiau, ac i'r chweched dosbarth o Flwyddyn 12 am eu cymorth gwerthfawr.

## Ymaelodi â'r Urdd

Ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, rydym yn annog ein disgyblion i ymuno â'r Urdd.
Gallwch wneud hyn drwy fynd i ihttps://urdd.cymru/cy/ymuno/

Drwy fod yn aelod o'r Urdd, bydd disgyblion yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a chystadlaethau, gan gynnwys cystadlaethau chwaraeon ac Eisteddfod yr Urdd yn ystod y flwyddyn.

## Digwyddiadau a Llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram lle rydym yn rhannu lluniau, newyddion a digwyddiadau o fywyd yr ysgol.
Ewch ati i ddilyn y cyfrif er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn Ysgol Treganna!

Diolch i bawb am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol.

## Parcio yn ddiogel

Dyma neges arall i atgoffa pawb i barcio'n ddiogel ac yn ystyriol o gwmpas yr ysgol ac i osgoi parcio ar linellau melyn dwbl.

Gofynnwn yn garedig hefyd i chi sicrhau eich bod yn gollwng eich plentyn mewn man diogel, ac nid yn uniongyrchol o flaen gatiau'r ysgol.

Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch pawb sy'n defnyddio safle'r ysgol.

## Bore Agored Ysgol Treganna

Ydy eich plentyn yn cychwyn yn yr ysgol ym mis Medi 2027? Dewch i ymweld ag ysgol Treganna!



## Patrwm Iaith yr Wythnos

Rydw i'n hoffi…? Dwi'n hoffi
Dydw i ddim yn hoffi

**Her**

Mae'n well gen i… na

## Testun trafod yr wythnos

Fy hoff le yn y byd yw…

## Cân yr wythnos

Papur Wal - Llyn Llawenydd

## Idiom/ Dihareb yr wythnos

Mynd dros ben llestri